

## **Y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymunedau Diwydiannol**

### **Cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymunedau Diwydiannol a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 dros Microsoft Teams**

#### **1. Yn bresennol:**

Vikki Howells AS (Cadeirydd); Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, Llywodraeth Cymru; Stephen Kinnock AS, Cadeirydd, grŵp hollbleidiol seneddol cronfa ffyniant gyffredin y DU; David Rees AS; Huw Irranca-Davies AS; yr Athro Steve Fothergill, Ysgrifenyddiaeth Genedlaethol yr ICA; Peter Slater, ICA Cymru; Chris Whitwood, Ysgrifenyddiaeth yr ICA; Phil O'Mara; Ysgrifenyddiaeth yr ICA; y Cynghorydd Gareth Jones, CBS Rhondda Cynon Taf; y Cynghorydd Andrew Dacey, CBS Castell-nedd Port Talbot; y Cynghorydd Andrew Barry, CBS Merthyr Tudful; y Cynghorydd Anthony Hunt, CBS Torfaen; y Cynghorydd Neelo Farr, CBS Pen-y-bont ar Ogwr; y Cynghorydd Helen Cunningham, CBS Blaenau Gwent; y Cynghorydd Steve Powderhill, CBS Rhondda Cynon Taf; y Cynghorydd Tyssul Evans, Cyngor Sir Gaerfyrddin; Ieuan Sherwood, CBS Pen-y-bont ar Ogwr; Paul Hudson, CBS Caerffili; yr Athro Kevin Morgan, Prifysgol Caerdydd; Alison Sandford, Llywodraeth Cymru; Michelle Rowson Woods, CRT; Robin Lewis, Swyddfa Vikki Howells AS; Lee Parsons, Swyddfa Peredur Owen Griffiths AS; Alexander Still, Swyddfa Hefin David AS; Tomos Llewelyn, Swyddfa Grŵp Senedd y Ceidwadwyr Cymreig; Billy Jones, Swyddfa Luke Fletcher AS; Eleri Griffiths, Swyddfa Heledd Fychan AS; Ioan Bellin, Swyddfa Rhys ab Owen AS.

#### **2. Ymddiheuriadau:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Tim Bowen, CBS Castell-nedd Port Talbot

#### **3. Cofnodion**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2022 ar yr amod bod Lee Parsons yn cael ei gofnodi fel un a oedd yn cynrychioli swyddfa Peredur Owen Griffiths AS.

#### **4. Croeso**

Croesawodd Vikki Howells bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, a oedd wedi cytuno'n garedig i annerch y cyfarfod ar gronfa ffyniant gyffredin y DU.

#### **5. Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU: Safbwynt Llywodraeth Cymru: Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, Llywodraeth Cymru**

Agorodd y Gweinidog ei anerchiad gan gyfeirio at y ffaith, er gwaethaf yr addewid maniffesto i sicrhau bod gwledydd a rhanbarthau'n cael o leiaf

cymaint drwy gronfa ffyniant gyffredin y DU ag a ddarparwyd drwy gronfeydd strwythurol blaenorol yr UE, y byddai Cymru £1.1bn ar ei cholled dros dair blynedd. Aeth ymlaen i ychwanegu, o ganlyniad i ffactorau megis chwyddiant a chynnydd mewn costau byw, y byddai cyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru werth £4bn yn llai na'r disgwyl dros yr un cyfnod.

Dywedodd hefyd fod Llywodraeth y DU wedi cymryd rhan yn hwyr yn y broses o ddylunio rhai agweddau ar gronfa ffyniant gyffredin y DU ac y byddai defnyddio'r gronfa adnewyddu cymunedol i bennu dyraniadau yn dargyfeirio arian oddi wrth yr ardaloedd tlotaf. Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran negodi'r broses o gydnabod mynegai amddifadedd lluosog Cymru, dywedodd y Gweinidog fod y fformiwla, ynghyd â'r cap ar ariannu, wedi arwain at ddsbarthu adnoddau i ffwrdd o ardaloedd trefol difreintiedig i rannau mwy gwledig o Gymru. O ganlyniad, gwnaeth ardaloedd fel Caerffili a Chastell-nedd Port Talbot yn waeth nag y byddent fel arall, tra bod Powys wedi gwneud yn well.

O ran rhoi cronfa ffyniant gyffredin y DU ar waith, dywedodd y Gweinidog y daethpwyd i gytundeb ar ddefnyddio Rhanbarthau Economaidd Cymru (Ardaloedd Bergen Twf) ac y dylai ceisiadau fod yn unol yn fras â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r fframweithiau rhanbarthol ar gyfer buddsoddi. Disgrifiwyd hyn fel rhywbeth gwell nag y gallai fod wedi bod a dywedwyd ei fod yn ddefnyddiol ar y cyfan.

Gan droi at y sefyllfa ddiweddaraf, cododd y Gweinidog bryderon ynghylch brigdorri arian ar gyfer y fenter llusoi a'i goblygiadau i raglenni llythrennedd a rhifedd i oedolion presennol Llywodraeth Cymru. Mynegodd bryderon hefyd ynghylch y ffaith bod awdurdodau lleol yn dal i aros am gymeradwyaeth i'w cynlluniau buddsoddi ac y gallai proffiliau gwariant blynyddol tynn olygu na fyddai arian yn cael ei wario yn y ffordd fwyaf effeithiol a bod arian heb ei wario yn cael ei ddychwelyd i'r Trysorlys. Aeth ymlaen i ddisgrifio awdurdodau lleol fel y 'cig yn y frechdan', yn wynebu dewisiadau anodd gyda llai o ymyriadau strategol, er ei fod yn parhau i fod o'r farn y byddem yn dal i allu dangos bod yr arian wedi gwneud gwahaniaeth.

Gorffennodd y Gweinidog drwy gyfeirio at rôl grŵp rhanddeiliaid Ewropeaidd Huw Irranca-Davies wrth gasglu gwybodaeth am sut mae'r gronfa ffyniant gyffredin yn gweithio a rhannu hyn â'r grŵp trawsbleidiol, y grŵp hollbleidiol seneddol ac eraill.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am ei gyfraniad a gwahoddodd gwestiynau a sylwadau, a ddechreuodd gyda'r Cynghorydd Anthony Hunt (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen) yn adleisio pwyntiau'r Gweinidog ar yr amserlenni tynn sy'n wynebu awdurdodau lleol a sut mae gweithredu tymor byr yn cael ei wneud ar draul targedu strategol. Gofynnodd David Rees AS a fyddai'r Llywodraeth yn edrych ar y gwersi a ddysgwyd.

Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog fod cyfarfod o'r Fforwm Gweinidogol i fod wedi cael ei gynnal eisoes ond eu bod yn dal i aros i gynnal hynny, er ei fod wedi cyfarfod â Simon Clarke, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau i drafod parthau buddsoddi. Mynegodd amheuan hefyd ynghylch realiti'r agenda ffyniant bro. Yn gyffredinol, ailadroddodd y Gweinidog yr alwad am ddeialog adeiladol gyda Llywodraeth y DU tra hefyd yn nodi na fyddai'n defnyddio adnoddau Llywodraeth Cymru i roi rhaglen ar waith nad oedd yn cefnogi'r hyn yr oedd y tu ôl iddi ac ar beth yr oedd yr arian yn cael ei wario, gan ychwanegu bod y cytundeb ar borthladdoedd rhydd yn dangos yr hyn sy'n bosibl o ran gwneud penderfyniadau ar y cyd wrth ddefnyddio dull mwy pragmatig.

**6. Safbwynt ar gronfa ffyniant gyffredin y DU: Stephen Kinnock AS, Cadeirydd grŵp hollbleidiol seneddol cronfa ffyniant gyffredin y DU**

Cyfeiriodd sylwadau agoriadol Stephen at y ffaith bod Cymru ar flaen y gad o ran yr heriau a gyflwynir gan gronfa ffyniant gyffredin y DU o ystyried bod cronfeydd strwythurol yr UE yn elfen mor bwysig o'r strategaeth datblygu economaidd gyffredinol yng Nghymru.

Aeth ymlaen i ddisgrifio gwaith y grŵp hollbleidiol seneddol a'i ymchwiliad i gronfa ffyniant gyffredin y DU. Yn deillio o hynny, dywedodd fod y grŵp hollbleidiol seneddol yn gweithio fel llais i randdeiliaid cronfa ffyniant gyffredin y DU, gan ganolbwyntio ei weithgareddau lobïo ar faterion sy'n cynnwys: amserlenni; cymeradwyo cynlluniau buddsoddi; rôl y gweinyddiaethau datganoledig; y bwch ariannu sgiliau yn Lloegr; y dibyn ariannu ar ôl 2025.

Gan gyfeirio at ymgynghoriad diweddar gyda dros 180 o randdeiliaid, dywedodd fod llythyr wedi'i anfon at Simone Clarke, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, yn amlygu, ymhlith materion eraill, bryderon ynghylch ansicrwydd, diffyg ymgynghori ac integreiddio â rhaglenni eraill, yn ogystal â rôl awdurdodau lleol wrth ymdrin â sefydliadau â gweithrediadau trawsffiniol. Wrth sôn am rôl awdurdodau lleol, roedd yn cyd-fynd â disgrifiad Vaughan Gething ohonynt fel 'y cig yn y frechdan', a disgrifiodd yn ei eiriau ei hun y weithred o 'ddatganoli bai'.

Amlygodd hefyd sut yr oedd y llythyr at Simon Clarke wedi galw am fwy o dryloywder gan yr Adran Ffyniant Bro, gyda chynlluniau buddsoddi yn cael eu cyhoeddi ar-lein i ysgogi gwell rhwydweithio ac integreiddio. Cyfeiriwyd hefyd at yr alwad i ddatrys y bwch o ran cyllid sgiliau a chyflogadwyedd yn 2023/24 yn Lloegr a oedd yn debygol o arwain at ddiswyddiadau ac yna'r angen i ail-recriwtio yn 2024, sefyllfa a ddisgrifiwyd fel un anesboniadwy.

Yn olaf, mynegwyd pryderon i Simon Clarke ynghylch disodli rhaglen saith mlynedd yr UE gyda ffenestr o dair blynedd heb unrhyw gyllid

gwarantedig y tu hwnt i 2024/25; i bob pwrpas byddai rhaglen saith mlynedd cyfwerth yn yr UE wedi bod yn werth tua £10.45bn, ond gyda dyraniad cronfa ffyniant gyffredin y DU hyd yma yn dod i gyfanswm o £2.6bn, mae angen sicrwydd o hyd dros yr ail gyfran 4 blynedd o tua £8bn. Disgrifiodd ymlyniad y Trysorlys at yr adolygiadau o wariant tair blynedd fel maen tramgwydd mawr, er bod llawer o enghreifftiau o fuddsoddiadau gwariant tymor hwy megis HS2 a chaffael amddiffyn.

Gorffennodd Stephen ei sylwadau gan ddiolch i'r ICA am helpu i yrru'r agenda ymlaen, gan ychwanegu bod y grŵp hollbleidiol seneddol yno i fod yn llais yn y Senedd i roi cronfa ffyniant gyffredin y DU ar waith.

Dilynodd cyfres o gwestiynau a oedd yn cynnwys pynciau fel rôl yr ASau Ceidwadol wrth gefnogi galwad y grŵp hollbleidiol seneddol am orwelion gwario hirach (Vikki Howells) a sut y byddai Llywodraeth Lafur yn edrych ar gronfa ffyniant gyffredin y DU a'r rhanbarthau (y Cynghorydd Andrew Dacey). Wrth ymateb, cadarnhaodd Stephen fod cynrychiolwyr y seddi 'Wal Goch', fel y'u gelwir, yn dangos mwy o ddiddordeb yng ngwaith y grŵp hollbleidiol seneddol, a bod eu gwaith yn cael ei gefnogi'n llawn gan yr Is-Gadeirydd, Jo Gideon AS. Cadarnhaodd hefyd y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol Cysgodol dros Ffyniant Bro, Lisa Nandy AS, yn adolygu cronfa ffyniant gyffredin y DU ac y byddai'n awyddus i barchu'r setliad datganoli. Yn dilyn awgrym gan Huw Irranca-Davies y dylid ystyried yr adroddiad diweddar ar y model pwrpasol ar arfer gorau ar gyfer ariannu rhanbarthol yng Nghymru, cytunodd Stephen i hwyluso sgwrs ar y mater gyda Lisa Nandy a Vaughan Gething.

## **7. Y camau nesaf: Yr Athro Steve Fothergill, Cyfarwyddwr Cenedlaethol, Industrial Communities Alliance**

Dechreuodd yr Athro Fothergill drwy bwysleisio bod arian cronfa ffyniant gyffredin y DU yn ei le tan o leiaf 2025 ac nad oes fawr o le felly i wella'r sefyllfa tan yr adolygiad nesaf o wariant. Ar yr un pryd, fodd bynnag, dywedodd y bu rhai arwyddion cychwynnol gan y Llywodraeth ynghylch yr hyn a allai ddigwydd ar ôl 2025. Yn bennaf, mae'n sôn am uno'r gwahanol ffrydiau ffyniant bro yn un gronfa a fyddai'n mynd i'r afael â'r mater ynghylch amcanion sy'n gorgyffwrdd. Roedd cyfeiriadau clir at hyn hefyd yn y cynllun twf diweddar, ac yn gyffredinol teimlwyd ei fod yn symudiad rhesymegol.

Fodd bynnag, hysbyswyd y rheini a oedd yn bresennol yn y cyfarfod bod nifer o bryderon ynghylch effaith uno'r cronfeydd, yn enwedig o ran Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â diflaniad cronfa ffyniant gyffredin y DU a thorri'r cysylltiad â chronfeydd strwythurol blaenorol yr UE, y bu Cymru'n brif fuddiolwr ohonynt, gan dderbyn tair gwaith yn fwy o gyllid y pen nag unrhyw ranbarth arall yn y DU. Yn ôl yr Athro Fothergill, fe allai hyn roi Cymru mewn sefyllfa lle byddai'n agored iawn i niwed.

Aeth ymlaen i dynnu sylw at yr anghysondebau rhwng y ffenestri adolygiad gwariant tair blynedd ag anghenion datblygu economaidd

rhanbarthol, sefyllfa a gydnabyddir hefyd yn yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. Ei gasgliad oedd mai'r Trysorlys oedd yn rhwystro unrhyw gynnydd, ac roedd angen ei argyhoeddi o'r achos dros gyfundrefn ariannu sy'n mynd y tu hwnt i flynyddoedd ariannol a chylchoedd gwariant unigol. Yn codi o hyn, roedd y rheini a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn falch o nodi y byddai'r Athro Fothergill yn cyfarfod â swyddogion y Trysorlys yn ystod yr wythnos nesaf i drafod y mater, a gofynnodd y Cadeirydd am gael gwybod y canlyniad.

Yna cafwyd trafodaeth fer ar y sefyllfa sy'n wynebu Cymru yn y cyfnod ar ôl 2025, gan gynnwys y posibilrwydd o farinadu ei chyfran bresennol o gronfa ffyniant gyffredin y DU (David Rees AS) a newidiadau i'r Fformiwla Barnett (y Cynghorydd Gareth Jones). Pwysleisiodd Michelle Rowson-Woods (CRT) hefyd ar ran y trydydd sector a'r sector preifat y brys i ddatrys yr ansicrwydd ynghylch cronfa ffyniant gyffredin y DU, yn enwedig o ran cymeradwyo'r cynlluniau buddsoddi a'r llinellau amser i awdurdodau lleol ddechrau eu hymgyngoriadau a'u trafodaethau â rhanddeiliaid eraill. Yn codi o hyn, atgoffodd Stephen Kinnock y cyfarfod o alwad y grŵp hollbleidiol seneddol i'r cynlluniau buddsoddi gael eu cyhoeddi ar-lein, tra dywedodd yr Athro Fothergill eu bod ar fin cael eu cymeradwyo.

## **8. Y cyfarfod nesaf**

Atgoffodd y Cadeirydd y rheini a oedd yn bresennol yn y cyfarfod fod y pynciau a awgrymwyd yn y gorffennol ar gyfer agenda'r Grŵp Trawsbleidiol yn cynnwys datgarboneiddio dur, pontio i'r economi werdd a phobl ifanc a'r farchnad lafur. Awgrymodd David Rees AS y dylid ychwanegu trafndiaeth gyhoeddus at y rhestr o eitemau posibl, a chynigiodd y Cynghorydd Gareth Jones y dylid ailystyried mater ynni'r llanw.

Ar awgrym yr Ysgrifennydd, cytunwyd y dylai'r cyfarfod nesaf ganolbwyntio ar faterion sy'n gysylltiedig â chronfa ffyniant gyffredin y DU, parthau buddsoddi a'r agenda ffyniant bro, o ystyried y sefyllfa sy'n datblygu'n gyflym a'r tebygolrwydd y bydd datblygiadau'n deillio o ddatganiad ariannol y Canghellor sydd ar fin digwydd.

